

Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Gorffennaf 2018

Annwyl Lynne

Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Bach 2017

Amgaeaf gopiâu o'r adroddiad ar ymchwil gymdeithasol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant ifanc, a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru heddiw:

<https://gov.wales/statistics-and-research/attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour/?skip=1&lang=cy>

Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil gyda rhieni plant chwech oed ac iau am eu hagweddau at reoli ymddygiad plant bach.

Cafodd y gwaith ei wneud yn ystod tymor yr hydref 2017 pryd cynhaliwyd 269 o arolygon ar y ffôn gyda rhieni (neu warcheidwaid) plant bach oedd wedi cymryd rhan cyn hynny yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17. Holwyd rhieni am eu hagweddau at fagu plant a chosb gorfforol. Holwyd rhieni adeg yr arolwg hefyd am sut i ddod o hyd i gyngor ar fagu plant, eu barn am newidiadau deddfwriaethol a'u hymwybyddiaeth ynghylch yr ymgyrch bositif ar fagu plant sef Magu Plant. Rhowch Amser Iddo. Roedd yr arolwg i bob pwrpas yn ailadrodd ymchwil a wnaed cyn hynny yn 2015

Yn gwyr

Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.